Erthygl: Cymwysterau (Lloegr a Gogledd Iwerddon)

Crynodeb

Mae'r erthygl hon yn edrych ar y gwahanol fathau o gymwysterau sydd ar gael yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd yn eich helpu i ddeall termau y byddwch yn dod ar eu traws wrth ddarllen gwybodaeth am yrfaoedd. Rhestrir yr adrannau yn nhrefn yr wyddor.

Cyrsiau Mynediad

Mae Cyrsiau Mynediad wedi'u cynllunio ar gyfer oedolion (19+) sy'n dymuno mynd i addysg uwch (AU), ond nad oes ganddynt y cymwysterau iawn. Gallwch eu hastudio mewn colegau ledled Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac maen nhw ar gael mewn amrywiaeth eang o wahanol bynciau. Mae prifysgolion yn cydnabod a gwerthfawrogi Cyrsiau Mynediad fel ffordd wych i oedolion gael mynediad at AU.

Gallwch eu hastudio'n amser llawn neu'n rhan-amser. Fel arfer, bydd yn cymryd blwyddyn i gwblhau Cwrs Mynediad amser llawn.

Felly, hyd yn oed os ydych yn bwriadu gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau Safon Uwch neu gyfwerth, bydd yn dal i fod yn bosibl i chi gael mynediad at addysg uwch yn y dyfodol trwy ddilyn Cwrs Mynediad.

I gael rhagor o fanylion, ewch i www.accesstohe.ac.uk

City & Guilds

Mae City & Guilds (C&G) yn cynnig ac yn achredu ystod lawn o gymwysterau galwedigaethol neu seiliedig ar waith, ar gyfer pobl 14-19 oed.

Maen nhw'n cynnig llawer o wahanol fathau a lefelau cymwysterau, mewn amrywiaeth o bynciau galwedigaethol. Ni waeth pa yrfa y mae gennych ddiddordeb ynddi, bydd cymhwyster ar gael i chi!

Edrychwch ar yr holl wahanol fathau o gymwysterau maen nhw'n eu cynnig isod:

Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs)

Mae NVQs wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sydd eisoes yn gweithio. Maen nhw'n rhoi prawf ar eich gallu yn y gweithle ac yn rhoi cyfle i chi ddangos yr hyn y gallwch ei wneud.

I gwblhau NVQ, bydd angen i chi ddangos eich bod yn gallu gwneud tasgau penodol cysylltiedig â gwaith.

Asesir NVQs mewn dwy ffordd wahanol:

- portffolio - byddwch yn creu ffolder yn cynnwys tystiolaeth o'r hyn rydych wedi'i wneud yn y gwaith
- arsylwi - bydd aseswr yn dod i'ch gwylio'n gweithio, gan wirio eich bod yn gallu gwneud y tasgau

Sgiliau Gweithredol, Sgiliau Craidd a Sgiliau Hanfodol

Mae'r cymwysterau ar-lein hyn wedi'u cynllunio i ategu eich dealltwriaeth o Fathemateg, Saesneg neu TGCh, sef y sgiliau craidd. Maen nhw ar gael mewn nifer o lefelau:

- Mynediad 2
- Mynediad 3
- Lefel 1
- Lefel 2

Mae cymwysterau Mathemateg, Saesneg a TGCh ar gael ar bob un o'r lefelau hyn. Maen nhw'n hyblyg iawn - byddwch yn astudio ar eich cyflymder eich hun, ac yn dewis pan fyddwch yn barod i wneud eich asesiad!

© CASCAID 2019

Lefelau Technegol

Cymwysterau galwedigaethol i bobl ifanc 16 - 19 oed yw Lefelau Technegol, sydd wedi'u cynllunio i helpu myfyrwyr sy'n dymuno arbenigo mewn gyrfa dechnegol benodol. Cewch gymhwyster cydnabyddedig yn y maes a ddewiswyd gennych. Maen nhw'n gyfwerth â Safon Uwch.

Mae'r pynciau'n cynnwys:

- Amaethyddiaeth
- Coginio Proffesiynol
- Nyrsio Milfeddygol
- Gwaith Plymwr a Gwresogi
- Peirianneg
- TG
- Trin Gwallt

.....a llawer mwy!

Prentisiaethau

Mae prentisiaethau'n gymysgedd o hyfforddiant yn y gwaith a dysgu mewn ystafell ddosbarth. Byddant yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer yr yrfa o'ch dewis, yn ogystal â chymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig. Ceir llawer o wahanol fathau o Brentisiaethau, ac maen nhw'n dod mewn pedair lefel:

- Lefel Canolradd
- Lefel Uwch
- Lefel Uchaf
- Prentisiaeth Gradd

Hyfforddeiaethau

Mae hyfforddeiaethau wedi'u cynllunio i baratoi pobl ifanc 16 i 24 oed ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol trwy eu helpu i ddod yn 'barod am waith'. Gallant eich helpu i gael swydd, neu efallai ddechrau Prentisiaeth trwy roi sgiliau sylfaenol pwysig i chi.

Mae'r rhaglen Hyfforddeiaeth newydd yn cynnwys yr elfennau craidd canlynol:

- Hyfforddiant paratoi am waith
- Saesneg a Mathemateg

Bagloriaeth Dechnegol

Mae'r Fagloriaeth Dechnegol yn gymhwyster galwedigaethol newydd cyffrous ar gyfer pobl ifanc 16 - 19 oed. Mae wedi'i chynllunio i roi'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddisgleirio ym myd gwaith.

Mae'r Fagloriaeth Dechnegol yn cynnwys tri cham:

- **Lefelau Technegol** - cymwysterau technegol yw'r rhain, sydd ar gael mewn amrywiaeth eang o feysydd gyrfa, ac sy'n gyfwerth â Safon Uwch (gweler uchod)
- **Cymwysterau Mathemateg Lefel 3** - e.e Mathemateg Safon Uwch/Uwch Gyfrannol
- **Cymhwyster Prosiect Estynedig** - cam prosiect olaf yw hwn, sy'n profi eich sgiliau ysgrifennu, ymchwilio, cyfathrebu a hunangymhelliad

Graddau

Graddau cyntaf

Cyrsiau addysg uwch yw'r rhain a astudir mewn prifysgolion a cholegau addysg uwch. Y gofyniad mynediad arferol ar

gyfer gradd yw 2/3 Safon Uwch (neu gyfwerth) a chymwysterau TGAU ar radd C/4 neu uwch mewn 3 phwnc arall. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi wirio'r union ofynion mynediad ar gyfer cyrsiau penodol. Nid oes angen unrhyw gymwysterau i gael mynediad at gyrsiau'r Prifysgol Agored.

Dyma'r dyfarniadau mwyaf cyffredin:

- Baglor Celfyddydau (BA)
- Baglor Gwyddoniaeth (BSc)
- Baglor Peirianneg (BEng)
- Baglor Addysg (BEd)

Cynigir graddau fel pynciau unigol, ar y cyd neu gyfun.

Ceir dwy lefel i raddau: Cyffredin ac Anrhydedd. Rhoddir dosbarthiadau gwahanol i raddau anrhydedd i ddangos y safon y mae myfyrwyr wedi'i chyrraedd. Dyma'r dosbarthiadau:

- Dosbarth Cyntaf (1)
- Ail Ddosbarth Uchaf (2:1)
- Ail Ddosbarth Isaf (2:2)
- Trydydd Dosbarth (3)

Fel arfer, mae'n cymryd tair i bedair blynedd i gwblhau graddau ar sail amser llawn, ond mae mwy a mwy o raddau llwybr carlam dwy flynedd ar gael bellach mewn amrywiaeth gyfyngedig o bynciau. Gall gymryd hyd at chwech i saith blynedd i gwblhau graddau'n rhan-amser.

Graddau uwch

Fel arfer, cyfeirir at y rhain fel cymwysterau ôl-raddedig. Mae angen gradd gyntaf i gael mynediad at radd uwch fel rheol.

Dyma'r dyfarniadau mwyaf cyffredin:

- Meistr Celfyddydau (MA)
- Meistr Gwyddoniaeth (MSc)
- Meistr Addysg (MEd)
- Meistr Gweinyddu Busnes (MBA)

Gellir astudio'r cyrsiau hyn ar sail amser llawn neu ran-amser. Gallant gymryd rhwng blwyddyn a thair blynedd i'w cwblhau.

Y cam nesaf yw Doethuriaeth. Mae'r rhai mwyaf cyffredin yn cynnwys: PhD, DPhil (mae'r ddau'n golygu Doethur mewn Athroniaeth), DSc (Doethur mewn Gwyddoniaeth) a DLitt (Doethur mewn Llenyddiaeth) ac maen nhw fel arfer yn cynnwys cyfnod hir o ymchwil fanwl.

Graddau sylfaen

Cymwysterau addysg uwch cysylltiedig â chyflogaeth yw'r rhain y gellir eu dilyn dros ddwy flynedd ar sail amser llawn neu ran-amser.

Fe'u datblygwyd gyda chymorth cyflogwyr ac maen nhw ar gael mewn llawer o sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Maen nhw'n ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau.

Gellir defnyddio graddau sylfaen i gynyddu'r posibilrwydd o gael gwell gyrfa a chyflog, oherwydd eu bod yn darparu cymysgedd o sgiliau arbenigol cysylltiedig â gwaith a dysgu academaidd. Gellir eu defnyddio hefyd i symud ymlaen i radd anrhydedd gysylltiedig.

Fe'u cyflwynir yn hyblyg mewn sawl ffordd, fel dros y rhyngrwyd, a thrwy ddysgu o bell, sy'n eu gwneud yn ddelfrydol i'r rhai hynny sydd mewn cyflogaeth. Nid oes unrhyw ofynion mynediad academaidd penodol ar gyfer graddau sylfaen. Mae gan bob sefydliad ei feini prawf mynediad ei hun.

Y Diploma

Cymhwyster hyblyg yn cynnig cymysgedd o addysg ddamcaniaethol ac ymarferol oedd y Diploma. Roedd gan fyfyrwyr y cyfle i ddysgu mewn gwahanol ysgolion, colegau a gweithleoedd.

Roedd y Diploma ar gael ar dair lefel:

- Roedd Lefel 1 yn hafal i astudio pedair neu bump TGAU
- Roedd Lefel 2 yn hafal i astudio pump neu chwech TGAU
- Roedd Lefel 3 yn hafal i astudio tair Lefel A.

Roedd pedwar ar ddeg o bynciau ar gael:

- Busnes, Gweinyddu a Chyllid
- Adeiladau a'r Amgylchedd Adeiledig
- Creadigol a Chyfryngau
- Peirianneg
- Gwallt a Harddwch
- Lletygarwch.
- TG
- Astudiaethau Tirol ac Amgylcheddol
- Dylunio Cynnyrch a Gweithgynhyrchu
- Cymdeithas, Iechyd a Datblygiad.
- Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Chwaraeon a Hamdden.
- Manwerthu.
- Teithio a Thwristiaeth.

Y Prosiect

Cymhwyster sydd ar gael i bobl ifanc 14 i 19 oed ydy'r Prosiect. Arferai ffurfio rhan orfodol o'r cymhwyster Diploma 14 i 19, ond bellach mae ar gael i astudio ei hun, er enghraifft, ochr yn ochr â chymwysterau TGAU neu Lefel A.

Gall myfyrwyr ddewis fformat er mwyn cyflwyno eu Prosiect. Er enghraifft:

- Cryno Ddisg
- DVD
- Cyflwyniad Llafar
- Cynhyrchu Cynnyrch.

Edexcel (BTEC)

Corff arholi a dyfarnu yw Edexcel. Maen nhw'n darparu amrywiaeth o gymwysterau yn ogystal â BTEC.

Cyflwynir cymwysterau BTEC ar bedair lefel:

- cymhwyster lefel 1: tystysgrif/diploma cyflwyniadol BTEC
- cymhwyster lefel 2: diploma cyntaf BTEC
- cymhwyster lefel 3: dyfarniad/tystysgrif/diploma cenedlaethol BTEC
- cymhwyster Lefel 4: tystysgrif/diploma cenedlaethol uchaf BTEC

Mae Cymwysterau Cenedlaethol Uchaf BTEC (HNDs a HNCs) yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gweithle. Maen nhw'n baratoad da ar gyfer swyddi lefel technegydd neu reoli mewn diwydiant a masnach. Maen nhw'n cynnwys lleoliadau gwaith, gwaith cwrs a gwaith ymarferol. Gellir eu defnyddio i drosi i gwrs gradd a gellir eu hastudio'n rhan-amser.

Mae Cyrsiau Byr BTEC ar gael hefyd ar bum lefel, yn amrywio o Lefel Mynediad i Gymhwyster Lefel Pump.

TAG Lefelau A ac AS

Cyrsiau sy'n gofyn am astudio pynciau unigol yn drylwyr ydy Lefelau A ac AS. Weithiau cewch eich asesu drwy arholiad yn unig, tra bod cyrsiau eraill yn asesu gwaith cwrs hefyd. Cewch eich graddio rhwng A*-E ar ddiwedd y cwrs.

© CASCAID 2019

Mae lefelau AS yn cynnwys tair uned AS. Cânt eu hastudio yn ystod blwyddyn gyntaf cwrs dwy flynedd Lefel A llawn. Y patrwm arferol ar gwrs dwy flynedd llawn-amser ydy i astudio pedair neu bump Lefel AS yn y flwyddyn gyntaf. Yn yr ail flwyddyn, gellwch barhau gyda rhai neu'r cyfan o'r rhain, gyda'ch gradd AS yn cyfrif tuag at eich Lefel A llawn derfynol.

Fel arall, gallwch ddechrau un neu fwy o Lefelau AS newydd yn yr ail flwyddyn, a derbyn cymhwyster AS yn y pynciau hynny nad ydych chi am barhau gyda nhw.

Mae Lefel A wedi ei gwneud o dair uned AS a thair uned A2 ychwanegol. Gellir cymryd yr unedau mewn rhannau neu gyda'i gilydd ar ddiwedd y cwrs.

Ar ôl y Lefelau A a/neu AS, fe allwch chi un ai barhau â'ch astudiaethau neu ddechrau gweithio.

O fis Medi 2015, daw'r Lefelau A a'r Lefelau AS yn ddau gymhwyster ar wahân. Bydd Lefelau A yn cwmpasu dwy flynedd o astudiaeth, gydag arholiad yn dilyn ar y diwedd.

Dyfarniadau Uwch Estynedig

Mae Dyfarniadau Uwch Estynedig ar gael mewn mathemateg.

Crëwyd y dyfarniadau hyn i herio'r myfyrwyr Lefel A mwyaf galluog. Rhônt gyfle i'r myfyrwyr i ddangos y gallu hwnnw ac i feddwl yn feirniadol a chreadigol.

Cânt eu hasesu'n allanol, ond ni fyddant yn galw am unrhyw adnoddau na dysgu ychwanegol.

Lefelau A mewn pynciau cymhwysol

Mae Lefelau A mewn pynciau cymhwysol yn darparu cyflwyniad eang i faes galwedigaethol. Mae'n bosib astudio ar gyfer y cymwysterau hyn mewn pynciau fel y Celfyddydau Perfformio, Teithio a Thwristiaeth, Peirianneg, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cymwysterau Mathemateg Annibynnol (FSMQ)

Cymwysterau mathemateg ydy'r FSMQ sydd i fod i bontio'r gagendor rhwng astudiaeth academaidd a galwedigaethol .

Mae'r cyrsiau hyn yn caniatáu'r myfyrwyr i ddatblygu medrau mathemategol sy'n benodol i'w hastudiaethau hwy. Er enghraifft, fe allant wneud FSMQ sy'n cynnwys astudiaeth o reoli arian neu weithio mewn 2- neu 3-D. Cânt eu hanelu'n bennaf at bobl sydd eisiau cymhwyster mewn mathemateg ond nad ydynt am wneud Lefel A neu AS.

Cambridge Pre-U

Mae'r Cambridge Pre-U yn gymhwyster newydd sydd wedi'i anelu at bobl ifanc 16 – 19 oed sy'n dymuno astudio mewn prifysgol.

Yn wahanol i'r cymhwyster Safon Uwch, bydd y Cambridge Pre-U yn paratoi myfyrwyr at un set o arholiadau yn unig ar ôl astudio am ddwy flynedd.

Gall myfyrwyr astudio hyd at bedwar prif bwnc Cambridge Pre-U, o blith rhestr o 26 pwnc, neu gallant ddewis astudio tri Phrif Bwnc, uned Safbwynt Byd-eang ac adroddiad ymchwil annibynnol.

Dyfernir graddau Pasio, Teilyngdod neu Ragoriaeth yn yr arholiadau Cambridge Pre-U.

TGAU

TGAU (Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd)

Fel arfer, mae myfyrwyr yn dilyn deg cwrs TGAU dros gyfnod o ddwy flynedd pan fyddant yn 14 oed.

- gallant gymryd rhwng un a dwy flynedd i'w cwblhau
- mae cyrsiau TGAU ar gael mewn amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys pynciau galwedigaethol
- Gellir astudio cyrsiau TGAU mewn ysgolion, colegau chweched dosbarth a cholegau addysg bellach
- Mae'n cymryd hanner yr amser i astudio cwrs byr TGAU ac mae'n cyfrif fel hanner TGAU
- Mae TGAU fel arfer yn cynnwys cyfuniad o waith ysgrifenedig, prosiectau a gwaith ymarferol. Fe'u hasesir gan arholiadau, profion llafar a gwaith cwrs

Ar hyn o bryd, dyfernir graddau A* (yr uchaf) i G (yr isaf) i gyrsiau TGAU, ac ystyrir bod graddau A* i C yn farc llwyddo da. Mae gradd U yn cynrychioli methiant annosbarthedig.

Fodd bynnag, o fis Medi 2015 ymlaen, bydd rhan fwyaf o gyrsiau TGAU yn cael eu graddio o 1 - 9, gyda 9 yn cynrychioli'r marc uchaf.

Siaradwch â'ch Athro/Athrawes os ydych yn ansicr ynghylch y system raddio newydd.

TGAU mewn pynciau galwedigaethol

Mae'r rhain yn cynnwys tair uned ac maen nhw'n gyfwerth â dau gymhwyster TGAU.

Dyfernir graddau A-G iddynt ac maen nhw ar gael yn y pynciau canlynol:

- celf a dylunio cymhwysol
- busnes cymhwysol
- peirianneg
- iechyd a gofal cymdeithasol
- hamdden a thwristiaeth
- gweithgynhyrchu
- gwyddoniaeth gymhwysol
- adeiladu a'r amgylchedd adeiledig (ar gael mewn rhai rhannau o'r wlad yn unig)

Maen nhw'n darparu cyflwyniad i'r maes galwedigaethol eang ac yn galluogi myfyrwyr i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Cymwysterau sgiliau allweddol

Mae cymwysterau sgiliau allweddol yn cynnwys unedau cyfathrebu, cymhwyso rhif, TGCh, gweithio gydag eraill, gwella eich dysgu a'ch perfformiad eich hun, a datrys problemau.

Maen nhw wedi'u cynllunio i'ch helpu i baratoi ar gyfer byd gwaith. Cânt eu hasesu trwy brofion a phortffolio o waith cwrs. Dyfernir tystysgrif ar gyfer pob sgìl a gyflawnir, gan ddangos y lefel a gyrhaeddwyd o 1 i 4.

Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ)

Cymwysterau galwedigaethol wedi eu seilio yn y gwaith ydy'r rhain. Nid oes unrhyw anghenion ar gyfer mynediad, ond fel arfer fe symudwch o un lefel i fyny i un arall. Gelwir cymwysterau tebyg yn Yr Alban yn SVQ.

- Maent yn ymdrin ag ystod eang o feysydd galwedigaethol, o beirianneg i wasanaethau iechyd.
- Cânt eu cynnig ar bum lefel yn amrywio o lefel 1, y symlaf, i lefel 5, sydd yr un mwyaf datblygedig.
- Mae'n bosib eu hastudio yn y gweithle, mewn colegau ac ar raglenni hyfforddiant.
- Gellir eu cymryd ar rediad sy'n gyffyrddus i chi.

Mae cymwysterau NVQ yn newid. Bellach maen nhw'n rhan o'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau. Oddi fewn i'r fframwaith newydd hwn, caiff cymwysterau galwedigaethol, fel yr NVQ, eu newid yn unedau unigol. Fe all y bydd rhai o'r unedau hyn yn parhau i gael eu galw'n NVQ, ac fe all y caiff rhai deitlau newydd.

Cymwysterau cymdeithasau proffesiynol/crefft

Mae nifer o gyrff proffesiynol yn cynnig cymwysterau sy'n perthyn yn benodol i'w maes penodol hwy o waith. Gall rhai graddau olygu na fydd raid sefyll arholiadau corff proffesiynol.

Bagloriaeth

Bagloriaeth Lloegr

Cyflwynwyd Bagloriaeth Lloegr yn 2010. Fodd bynnag, yn wahanol i'r Fagloriaeth Ryngwladol, nid cymhwyster gwirioneddol ydyw.

Mesur o berfformiad yw Bagloriaeth Lloegr. Ystyr hynny yw ei bod yn mesur a yw disgyblion wedi sicrhau gradd C/4 neu well mewn cyfres o bynciau academaidd - Saesneg, mathemateg, hanes neu ddaearyddiaeth, y gwyddorau ac iaith. Yn y pen draw, bydd disgyblion yn gallu derbyn tystysgrif yn dangos eu bod wedi cyflawni Bagloriaeth Lloegr.

I gael rhagor o wybodaeth a rhestr lawn o'r cymwysterau dan sylw, ewch i wefan yr Adran Addysg a chwilio am Fagloriaeth Lloegr.

Bagloriaeth Cymru

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster ar gyfer myfyrwyr 14 i 19 oed yng Nghymru.

Mae'n cyfuno sgiliau datblygiad personol â chymwysterau presennol fel cymwysterau Safon Uwch, NVQ a TGAU. Gellir ei hastudio yn Gymraeg neu Saesneg, neu mewn cyfuniad o'r ddwy iaith.

Mae elfennau o'r Fagloriaeth yn debyg i'r Diplomâu newydd sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr. Fel y Diploma, mae Bagloriaeth Cymru yn ceisio addysgu nid yn unig sgiliau sy'n ddefnyddiol ar gyfer addysg bellach ac uwch, ond hefyd ar gyfer byd gwaith a bywyd yn gyffredinol.

Bydd rhannau o'r Diplomâu newydd hefyd ar gael i fyfyrwyr yng Nghymru yn rhan o'u cymhwyster Bagloriaeth, sef:

- y prosiect
- prif ddysgu.

Ceir tair lefel i Fagloriaeth Cymru, sef:

- Diploma Sylfaen - sy'n gyfwerth â TGAU graddau D - G, NVQ lefel 1, ac ati.
- Diploma Canolradd - sy'n gyfwerth â TGAU graddau A*-C, neu NVQ lefel 2, ac ati.
- Diploma Uwch - sy'n gyfwerth â Safon Uwch, neu NVQ lefel 3, ac ati.

Y Fagloriaeth Ryngwladol

Sefydliad addysgol dielw sydd wedi'i leoli yn Genefa, y Swistir, yw'r Sefydliad Bagloriaeth Ryngwladol. Mae'n cynnig tair rhaglen astudio i ysgolion:

- y Rhaglen Ddiploma ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed
- y Rhaglen Blynyddoedd Canol ar gyfer pobl ifanc 11 i 16 oed
- y Rhaglen Blynyddoedd Cynradd ar gyfer plant 3 i 12 oed

Defnyddir amryw ddulliau asesu, er enghraifft, gwaith cwrs, gwaith ymarferol, profion llafar ac arholiadau ysgrifenedig. Bydd bron pob prifysgol yn y Deyrnas Unedig yn derbyn Rhaglen Ddiploma'r Fagloriaeth Ryngwladol fel cymhwyster mynediad. Gallwch wirio gydag UCAS i gael gwybod y sgorau pwyntiau sy'n ofynnol gan brifysgolion Prydeinig. Mae hefyd yn bosibl defnyddio eich cymhwyster Rhaglen Ddiploma i gael lle mewn prifysgol y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Access courses

Access courses are designed for adults (19+) who wish to go into higher education (HE), but who do not have the right qualifications. You can study them in colleges throughout England and Wales, and they are available in a whole range of different subjects. Universities recognise and value Access Courses as an excellent way for adults to get into HE.

You can study them either full-time or part-time. A full-time Access Course will usually take a year to complete.

So, even if you intend to leave school without any A levels or equivalent, you can still get into higher education in the future, by taking an Access Couse.

For more details take a look at www.accesstohe.ac.uk

Degrees

First degrees

These are higher education courses studied at universities and colleges of higher education. The usual entry requirement for a degree is 2/3 A levels (or equivalent) and GCSEs at grade C or higher in 3 other subjects. However, you must check exact entry requirements for particular courses. No qualifications are required for entry to Open University courses.

The most common awards are:

- Bachelor of Arts (BA)
- Bachelor of Science (BSc)
- Bachelor of Engineering (BEng)
- Bachelor of Education (BEd).

Degrees are offered as single, joint and combined subjects.

There are two levels of degree: Ordinary and Honours. Honours degrees are given different classifications to indicate how well students have done. These are:

- First Class (1)
- Upper Second (2:1)
- Lower Second (2:2)
- Third Class (3).

Degrees normally take three to four years to complete on a full-time basis, but two year fast-track degrees are becoming increasingly available in a limited range of subjects. Degrees can take up to six or seven years to complete part-time.

Higher degrees

These are normally referred to as postgraduate qualifications. A first degree is normally required for entry to a higher degree.

The most common awards are:

- Master of Arts (MA).
- Master of Science (MSc).
- Master of Education (MEd).
- Master of Business Administration (MBA).

These courses can be studied on a full- or part-time basis. They can take between one and three years to complete.

The next step is a Doctorate. The most common of these include: PhD, DPhil (both mean Doctor of Philosophy), DSc (Doctor of Science) and DLitt (Doctor of Letters) and usually involve a long period of in-depth research.

Foundation degrees

These are employment-related higher education qualifications that can be taken over two years full-time, or on a part-time basis.

They have been developed with the help of employers and are available at many higher and further education institutions. They cover a wide range of subjects.

Foundation degrees can be used to improve career opportunities and earning potential, as they provide a mix of work-related specialist skills and academic learning. They can also be used to progress on to a related honours degree.

They are delivered flexibly in a variety of ways, such as over the Internet, and by distance learning, making them ideal for those in employment. There are no set academic entry requirements for foundation degrees. Each institution has its own entry criteria.

© CASCAID 2019

GCE A and AS levels

A levels and AS levels are courses that require the study of single subjects in depth. Sometimes you are assessed by examination only, while others contain coursework assessment as well. You will be graded A*-E at the end of the course.

AS levels consist of three AS units. They are studied in the first year of a full two-year A level. The usual pattern on a two-year full-time course is to study four or five AS levels in the first year. In the second year, you can continue with some or all of these, with your AS grade counting towards your final full A level.

Alternatively, you can start one or more new AS levels in the second year, and receive an AS qualification in those subjects that you do not want to continue with.

An A level is made up of three AS units and three additional A2 units. The units may be taken in stages or all together at the end of the course.

After AS and/or A levels, you can either continue with your study or enter employment.

From September 2015, AS level and A levels will become two seperate qualifications. A levels will involve two years of study, followed by a final exam at the end.

Advanced Extension Awards (AEAs)

Advanced Extension Awards are available in maths.

These awards are designed to challenge the most able A level students. They give students the opportunity to show the ability to think critically and creatively.

They are assessed externally, but will require no additional teaching or resources.

A levels in applied subjects

A levels in applied subjects provide a broad introduction to a vocational area. It is possible to study for these qualifications in subjects such as Performing Arts, Travel and Tourism, Engineering, and Health and Social Care.

Free Standing Maths Qualifications (FSMQs)

FSMQs are maths qualifications that are geared towards bridging the gap between academic and vocational study.

These courses allow students to develop maths ability specific to their studies. For example, they might do a FSMQ that includes study of managing money or working in 2- or 3-D. They are mainly aimed at people who want a maths qualification but who do not want to do an AS or A level.

Cambridge Pre-U

The Cambridge Pre-U is a new qualification, aimed at 16 to 19 year-olds who want to go to university.

Unlike the A Level qualification, the Cambridge Pre-U will prepare students for just one set of exams at the end of two years of study.

Students can study up to four Principal Cambridge Pre-U subjects, choosing from a choice of 26 subjects, or they can choose to study three Principal Subjects, a Global Perspectives unit and an independent research report.

The Cambridge Pre-U is graded Pass, Merit, or Distinction.

GCSEs

GCSE (General Certificate of Secondary Education)

Students normally take up to ten GCSEs over a two-year period from the age of 14.

- They can take from one to two years to complete.
- Grades range from A* (the highest) to G (the lowest), with grades A* to C being considered a good pass. Grade U is

unclassified fail.
- There are GCSEs in a wide variety of subjects, including vocational subjects.
- GCSEs can be studied in schools, sixth form colleges and colleges of further education.
- A GCSE short course takes half the time to study and counts as half a GCSE.
- GCSEs usually involve a combination of written work, projects and practical work. They are assessed by exams, orals and coursework.

GCSEs in vocational subjects

These are made up of three units and are equivalent to two GCSEs.

They are graded from A-G and are available in the following subjects:

- Applied Art and Design
- Applied Business
- Engineering
- Health and Social Care
- Leisure and Tourism
- Manufacturing
- Applied Science
- Construction and the Built Environment (Only available in some areas of the country).

They provide an introduction to the broad vocational area and enable progression to further education, training and employment.

Key skills qualifications

Key skills qualifications are made up of units of communication, application of number, ICT, working with others, improving your own learning and performance, and problem solving.

They help students prepare for the world of work. Assessment is based on tests and a portfolio of coursework. A certificate is awarded for each key skill achieved showing the level reached from 1 to 4.

National Vocational Qualifications (NVQs)

These are vocational work-based qualifications. There are no entry requirements, but you usually move from one level up to another. The Scottish equivalents are called SVQs.

- They cover a wide range of occupational areas, from engineering to health services.
- They are offered at five different levels ranging from level 1, which is the simplest level, to level 5, which is the most advanced.
- They can be studied in the workplace, in colleges and on training programmes.
- They can be taken at your own pace.

NVQs are changing. They are now part of the new Qualifications Credit Framework. Within this new framework, vocational qualifications, such as NVQs, are being changed into individual units. Some of these units may continue to be called NVQs, and some may be given new titles.

Professional/trade association qualifications

Many professional bodies offer qualifications which relate specifically to their particular area of work. Certain degrees can give exemption from professional body examinations.

Baccalaureate

English Baccalaureate

The English Baccalaureate was introduced in 2010. However, unlike the International Baccalaureate, it isn't an actual qualification.

The EBacc is a performance measure. What this means is that it measures whether pupils have secured a C grade or better in a series of academic subjects - English, mathematics, history or geography, the sciences and a language. Eventually, pupils will be able to receive a certificate showing that they've achieved the EBacc.

For more information and for a full list of the qualifications covered, go to the Department of Education website and search for English Baccalaureate.

Welsh Baccalaureate

The Welsh Baccalaureate, or Welsh Bac for short, is a qualification for 14 to 19 year old students in Wales.

It combines personal development skills with existing qualifications like A levels, NVQs and GCSEs. It can be studied in English or Welsh, or a combination of the two languages.

There are elements of the Bac that are similar to the new Diplomas being introduced in England. Like the Diploma, the Welsh Bac aims to teach students not only skills which are useful for further and higher education, but also for the world of work and life in general.

Parts of the new Diplomas will also be available to students in Wales as part of their Baccalaureate qualification. These are:

- the project
- principal learning.

There are three levels you can do the Welsh Bac in. These are:

- Foundation Diploma - equivalent to GCSEs at grades D - G, NVQ level 1, etc.
- Intermediate Diploma - equivalent to GCSEs at grades A*-C, or NVQ level 2, etc.
- Advanced Diploma - equivalent to A Level standard, or NVQ level 3, etc.

International Baccalaureate

The International Baccalaureate Organisation (IBO) is a non-profit making educational foundation based in Geneva, Switzerland. It offers schools three programmes of study:

- The Diploma Programme for 16 to 19-year-olds.
- The Middle Years Programme for 11 to 16-year-olds.
- The Primary Years Programme for 3 to 12-year-olds.

Various methods of assessment are used, for example, coursework, practical work, orals and written examinations.

Virtually every university in the UK will accept the IB Diploma Programme (DP) as an entry qualification. You can check with UCAS for the point scores required by British universities. It is also possible to use your DP qualification to get into a university outside the UK.

TAG Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol

O fis Medi 2015 ymlaen, bydd cymwysterau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn newid.

Bydd cymwysterau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn y pynciau canlynol yn dod yn ddau gymhwyster ar wahân.

- celf a dylunio
- bioleg
- busnes
- cemeg
- cyfrifiadureg
- economeg
- iaith Saesneg
- llenyddiaeth Saesneg
- hanes
- ffiseg
- seicoleg

- cymdeithaseg

Bydd cyrsiau Safon Uwch yn y pynciau hyn yn cynnwys dwy flynedd o astudio, ac yna arholiad terfynol ar y diwedd. Wedi hynny, gallwch benderfynu pa un a ydych eisiau symud ymlaen i addysg bellach neu uwch, neu gael swydd.

Bydd cyrsiau Uwch Gyfrannol yn y pynciau hyn yn dod yn gymhwyster ar wahân ac ni fyddant yn ffurfio rhan o Safon Uwch mwyach. Bydd y cyrsiau Uwch Gyfrannol newydd yn cymryd blwyddyn i'w cwblhau, gydag arholiad terfynol ar y diwedd. Byddant yn gyfwerth â blwyddyn un Safon Uwch ac yn cael eu haddysgu ochr yn ochr â hynny. Ar ôl cwblhau cymhwyster Uwch Gyfrannol, gallwch benderfynu pa un a ydych eisiau parhau i astudio, gan ddilyn cwrs Safon Uwch o bosibl, neu gael swydd.

Fodd bynnag, bydd cymwysterau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol mewn pynciau eraill yn aros fel a ganlyn:

Mae cyrsiau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn rhai sy'n gofyn am astudio pynciau unigol yn fanwl. Weithiau, cewch eich asesu trwy arholiad yn unig, tra byddwch yn cael asesiad gwaith cwrs hefyd ar gyfer cyrsiau eraill. Cewch radd A*-E ar ddiwedd y cwrs.

Mae cyrsiau Uwch Gyfrannol yn cynnwys tair uned Uwch Gyfrannol. Fe'u hastudir ym mlwyddyn gyntaf cwrs Safon Uwch llawn dwy flynedd. Y patrwm arferol ar gwrs amser llawn dwy flynedd yw astudio pedwar neu bump cwrs Uwch Gyfrannol yn y flwyddyn gyntaf. Yn yr ail flwyddyn, gallwch barhau â rhai o'r rhain, neu bob un ohonynt, a bydd eich gradd Uwch Gyfrannol yn cyfrif tuag at eich Safon Uwch lawn derfynol.

Fel arall, gallwch ddechrau un neu fwy o gyrsiau Uwch Gyfrannol newydd yn yr ail flwyddyn, a derbyn cymhwyster Uwch Gyfrannol yn y pynciau hynny nad ydych eisiau parhau â nhw.

Mae Safon Uwch yn cynnwys tair uned Uwch Gyfrannol a thair uned A2 ychwanegol. Gellir astudio'r unedau mewn camau neu gyda'i gilydd ar ddiwedd y cwrs.

Ar ôl cyrsiau Uwch Gyfrannol a/neu Safon Uwch, gallwch naill ai barhau i astudio neu gael swydd.

Dyfarniadau Uwch Estynedig (AEAs)

Mae Dyfarniadau Uwch Estynedig ar gael mewn mathemateg.

Mae'r dyfarniadau hyn wedi'u cynllunio i herio'r myfyrwyr Safon Uwch mwyaf galluog. Maen nhw'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddangos y gallu i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol.

Fe'u hasesir yn allanol, ond ni fydd angen unrhyw addysgu nac adnoddau ychwanegol arnynt.

Safon Uwch mewn pynciau cymhwysol

Mae Safon Uwch mewn pynciau cymhwysol yn rhoi cyflwyniad eang i faes galwedigaethol. Mae'n bosibl astudio ar gyfer y cymwysterau hyn mewn pynciau fel celfyddydau perfformio, teithio a thwristiaeth, peirianneg, ac iechyd a gofal cymdeithasol.

Cymwysterau Mathemateg Annibynnol (FSMQs)

Cymwysterau mathemateg yw FSMQs sy'n ceisio pontio'r bwlch rhwng astudio academaidd a galwedigaethol.

Mae'r cyrsiau hyn yn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu gallu mathemategol yn benodol i'w hastudiaethau. Er enghraifft, fe allent wneud FSMQ sy'n cynnwys astudio rheoli arian neu weithio mewn 2-D neu 3-D. Maen nhw wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer pobl sydd am gael cymhwyster mathemateg ond nad ydynt eisiau gwneud cwrs Uwch Gyfrannol neu Safon Uwch.

Cymhwyster Cyn Prifysgol Caergrawnt

Cymhwyster newydd yw cymhwyster Cyn Prifysgol Caergrawnt sydd wedi'i fwriadu ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed sydd eisiau mynd i'r brifysgol.

Yn wahanol i'r cymhwyster Safon Uwch, bydd cymhwyster Cyn Prifysgol Caergrawnt yn paratoi myfyrwyr ar gyfer un gyfres o arholiadau yn unig ar ddiwedd dwy flynedd o astudio.

Gall myfyrwyr astudio hyd at bedwar Prif bwnc Cyn Prifysgol Caergrawnt, gan ddewis o blith 26 pwnc, neu gallant ddewis astudio tri Phrif Bwnc, uned Safbwyntiau Byd-eang ac adroddiad ymchwil annibynnol.

Dyfernir graddau Llwyddo, Teilyngdod, neu Ragoriaeth i gymhwyster Cyn Prifysgol Caergrawnt.

Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs)

Mae NVQs wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sydd eisoes yn gweithio. Maen nhw'n rhoi prawf ar eich galluoedd yn y gweithle ac yn rhoi cyfle i chi ddangos yr hyn y gallwch ei wneud.

I gwblhau NVQ, bydd angen i chi ddangos eich bod yn gallu gwneud tasgau penodol cysylltiedig â gwaith.

Asesir NVQs mewn dwy ffordd wahanol:

- portffolio - byddwch yn creu ffolder yn cynnwys tystiolaeth o'r hyn rydych wedi'i wneud yn y gwaith
- arsylwi - bydd aseswr yn dod i'ch gwylio'n gweithio, gan wirio eich bod yn gallu gwneud y tasgau

Cymwysterau proffesiynol/cymdeithas fasnach

Mae llawer o gyrff proffesiynol yn cynnig cymwysterau sy'n ymwneud yn benodol â'u maes gwaith. Gall rhai graddau eich eithrio rhag arholiadau corff proffesiynol.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Edexcel**
  Ffôn 0845 6180440
  Gwefan www.edexcel.org.uk

- **Open University (OU)**
  Ffôn 0845 3006090
  Gwefan www.open.ac.uk

- **City & Guilds**
  Cyfeiriad 1 Giltspur Street, London EC1A 9DD
  Ffôn 020 7294 2468
  E-bost learnersupport@cityandguilds.com
  Gwefan www.cityandguilds.com

- **British Qualifications 2013**
  Publisher: Kogan Page

- **British Vocational Qualifications 2010**
  Publisher: Kogan Page